# Taliadau rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau cig

Sut rydym yn codi tâl am weithgareddau a gynhelir gennym ni mewn sefydliadau cig.

## Pwy sy'n talu

Codir tâl ar weithredwyr busnesau bwyd mewn sefydliadau cig cymeradwy am reolaethau cig. Dyma'r safleoedd:

- lladd-dai
- ffatrïoedd torri
- sefydliad trin helgig
- cyfleusterau lladd ar y fferm
- safleoedd torri

## Pam rydym yn codi tâl

Mae'n ofynnol i ni godi anfoneb ar y diwydiant cig yn ôl y gyfraith a chanllawiau Trysorlys EF, fel y nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus, i godi tâl ar fusnesau am y gwasanaethau rydym yn eu darparu iddyn nhw.

Mae Milfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Hylendid Cig yn helpu i sicrhau bod gan ddefnyddwyr ac allforwyr hyder yn y cig a werthir yma a thramor.

## Sut rydym yn codi tâl

Rydym yn codi tâl fesul awr am ddefnyddio ein hadnoddau staff, gan ychwanegu rhai taliadau am lwfansau lle mae patrymau gwaith gweithredwr busnes bwyd yn arwain at hyn, fel gweithio shifftiau. Gellir gosod gostyngiadau ar rai o'r taliadau hyn, a bydd y lladd-dai lleiaf yn cael gostyngiad o 90% ar eu holl taliadau. Gweler ein hadnodd cyfrifo costau i amcangyfrif y taliadau am y rheolaethau yn eich eiddo.

### Cymru a Lloegr

Mae hyn yn cael ei reoleiddio gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir *(retained EU law)* ac yn cael ei weithredu gan y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr.

Codir tâl hefyd ar weithredwyr busnesau bwyd mewn safleoedd cig cymeradwy am y canlynol:

- ddogfennau ar symud yn fewnol
- ardystio allforion
- dilysu cydymffurfiaeth â gofynion allforio gwledydd eraill

Rydym yn codi tâl ar Adrannau Llywodraethol a chwsmeriaid eraill am waith rydym yn ei gyflawni ar eu rhan. Er enghraifft, am wiriadau ar fesurau rheoli sgil-gynhyrchion anifeiliaid, neu draddodi

darlithoedd arbenigol i brifysgolion.

### Gogledd Iwerddon

Mae hyn yn cael ei reoleiddio gan gyfraith rheolaethau swyddogol yr UE a'i weithredu gan y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

Caiff rheolaethau swyddogol hylendid cig yn y sefydliadau cymeradwy hyn eu cyflawni gan yr Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA).

Codir tâl ar weithredwyr busnesau bwyd am y rheolaethau hyn trwy ein system anfonebu yng Ngogledd Iwerddon.

Ni chodir tâl ar weithredwyr busnesau bwyd am yr amser a dreulir ar reolaethau Deunydd Risg Penodedig, nac am yr amser a dreulir ar weithgarwch y mae gan DAERA gyfrifoldeb polisi drostynt.

## Adnoddau

**Cymru a Lloegr**
Mae graddau ein staff naill ai'n:

- Filfeddyg Swyddogol cyflogedig neu dan gontract
- Arolygydd Hylendid Cig cyflogedig neu dan gontract

**Gogledd Iwerddon**
Yng Ngogledd Iwerddon y graddau yw:

- Uwch Arolygydd Hylendid Cig
- Arolygydd Hylendid Dofednod
- Arolygydd Hylendid Cig Coch
- Milfeddyg Swyddogol (OV)

## Gostyngiadau

Gellir rhoi gostyngiadau ar rai taliadau rheolaethau cig ar gyfer lladd-dai cig coch, lladd-dai dofednod (poultry), cyfleusterau lladd ar y fferm a sefydliadau trin helgig. Ni chynigir gostyngiadau ar daliadau i ffatrïoedd torri.

## Cefndir

Ym mis Medi 2012, gofynnom ni i'r diwydiant cig weithio gyda ni i ddatblygu system ostyngiadau ar gyfer y diwydiant cig a fyddai'n:

- hyrwyddo effeithlonrwydd
- cefnogi gwella cydymffurfiaeth (o fewn cylch gwaith dadreoleiddio)
- cefnogi mentrau bach a chanolig yn briodol
- darparu trefniadau gostyngiadau mwy cytbwys a theg

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r sectorau cynhyrchu a phrosesu i sefydlu'r Gr?p Llywio ar gyfer Codi Tâl am Reolaethau Gig ('Y Gr?p Llywio') o dan Gadeirydd annibynnol.

Ar gyfer y cam cyntaf, roedd y Gr?p Llywio yn cynnwys pymtheg o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sectorau cynhyrchu a phrosesu, y Cadeirydd ac aelod o Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Ymgynghorwyd yngl?n â chynigion y gr?p yn 2015 a chytunwyd arnynt gan bwyllgorau rheoleiddio'r llywodraeth cyn eu gweithredu ym mis Ebrill 2016.

Gallwch chi ddod o hyd i fanylion penodol y system ostyngiadau sydd wedi'i datblygu yn nogfennau'r Gr?p Llywio ar Daliadau Cig.

Ail gam gwaith y Gr?p Llywio oedd datblygu model cyllid cynaliadwy ar gyfer rheolaethau swyddogol ar gig.

Roedd y Gr?p Llywio yn adrodd i'n Bwrdd ym mis Mawrth 2017, ac fe gytunwyd y byddai'r Gr?p a'i waith yn dod i ben tan i ni ymadael â'r UE.

## Canllaw Taliadau

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2024-2025 as PDF(Open in a new window) (18.04 MB)

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2023-2024 as PDF(Open in a new window) (440.25 KB)

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2022-2023 as PDF(Open in a new window) (775.4 KB)

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2021-2022 as PDF(Open in a new window) (328.83 KB)

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2020-2021 as PDF(Open in a new window) (769.71 KB)

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2019-2020 as PDF(Open in a new window) (2.34 MB)

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2018-2019 as PDF(Open in a new window) (801.33 KB)

### England and Wales

PDF
Gweld Charges guide for England and Wales 2016-2017 as PDF(Open in a new window) (584.94 KB)

###### Gogledd Iwerddon

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd mewn lladd-dai, ffatrïoedd torri a sefydliadau trin helgig cymeradwy yng Ngogledd Iwerddon. Maen nhw'n cwmpasu'r un pynciau â fersiwn Cymru a Lloegr ac yn ychwanegol:

- yn rhoi trosolwg o sut i gwblhau Datganiad o  Adnoddau
- yn cynnwys atodiadau gyda chyfraddau perthnasol DAERA fesul awr, cyfraddau gostyngiadau'r ASB ac esboniad o daliadau cyffredinol DAERA

### Northern Ireland

PDF
Gweld Charges guide for Northern Ireland 2024-2025 as PDF(Open in a new window) (379.65 KB)

Archifau cenedlaethol canllawiau ar daliadau cyn 2016-2017

## Data taliadau

Mae'r wybodaeth hon yn dadansoddi'r taliadau yng Nghymru ac yn Lloegr ac yn egluro sut mae taliadau i'r diwydiant yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Dangosir taliadau sy'n gysylltiedig â'r ASB mewn dau gategori: taliadau uniongyrchol a chostau anuniongyrchol. Maent hefyd yn cael eu dadansoddi yn ôl costau:

- Arolygwyr Hylendid Cig
- Milfeddygon Swyddogol

Rhennir cyfanswm y taliadau cyllidebol â nifer yr oriau a gyllidebwyd i gyfrifo'r cyfraddau codi tâl fesul awr ar gyfer Arolygwyr Hylendid Cig a Milfeddygon Swyddogol.

Defnyddir y cyfraddau hyn i bennu bil misol pob ffatri gig. Mae gostyngiad wedi'i gynnwys ar fil y mwyafrif o ffatrïoedd, felly nid oes angen iddynt dalu'r taliadau llawn.

Defnyddir y broses data taliadau i nodi cyfran taliadau anuniongyrchol yr ASB sy'n ymwneud â rheolaethau cig ac sy'n cael eu dosrannu i gyfraddau'r Milfeddygon Swyddogol a'r Arolygwyr Hylendid Cig. Mae'r broses data costau a chyfrifo'r cyfraddau taliadau yn destun archwiliad allanol.

### England and Wales

PDF
Gweld Meat hygiene cost data 2024-2025 as PDF(Open in a new window) (782.09 KB)
PDF
Gweld  Meat hygiene cost data 2023-2024 as PDF(Open in a new window) (731.81 KB)
PDF
Gweld Meat hygiene cost data 2022-2023 as PDF(Open in a new window) (830.74 KB)
PDF
Gweld Meat hygiene cost data 2020-2021 as PDF(Open in a new window) (834.85 KB)
PDF
Gweld Meat hygiene cost data 2019-2020 as PDF(Open in a new window) (1.04 MB)

### England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld Meat hygiene cost data 2018-2019 as PDF(Open in a new window) (776.44 KB)

### England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld Meat hygiene cost data 2017-2018 as PDF(Open in a new window) (258.79 KB)

Archifau cenedlaethol data taliadau cyn 2017 - 2018

## Cyfrifo taliadau

Mae'r ddogfen gyfrifo hon ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru ac yn Lloegr sy'n ystyried newid eu horiau a/neu eu harferion gweithredu. Gellir ei defnyddio cyn cwrdd â'n rheolwyr maes, i ganfod sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar daliadau rheolaethau cig.

Mae'r ddogfen gyfrifo wedi'i rhannu'n dair rhan, sy'n rhoi amcangyfrifon dangosol ar gyfer:

- lladd-dai cig coch a chyfleusterau lladd ar y fferm
- lladd-dai dofednod
- sefydliadau trin helgig

Dim ond er mwyn cyfrifo'r amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn benodol a nodir y gellir defnyddio'r teclynnau hyn.

### England and Wales

EXCEL
Gweld Charges Discount Estimator 2024-2025 as Excel(Open in a new window) (166.72 KB)